**COFNOD PENDERFYNIADAU'R CABINET – 20 HYDREF 2020**

| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Blynyddol 2019-20** |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol 2019-20 yn Atodiad A i'r adroddiad ac yn ei argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo. |

| Teitl yr Adroddiad | **Monitro Cyllideb 2020-21 Rhagolwg Refeniw Chwarter 2** |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br><br>• Nodi'r sefyllfa refeniw a rhagwelir ar gyfer 2020-21<br>• Wedi argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng £100,000 a £500,000 fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1.14 o'r adroddiad. |

| Teitl yr Adroddiad | **Y Diweddaraf am y Rhaglen Gyfalaf –** Chwarter 2 2020-21 |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br><br>• Nodi rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Medi 2020 yn Atodiad A i'r adroddiad<br>• Wedi cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i'w gymeradwyo<br>• Wedi nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion eraill rhagamcanol ar gyfer 2020-21 yn Atodiad C i'r adroddiad |

| Teitl yr Adroddiad | **Gwasanaeth Mewnol ar gyfer Dioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig** |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br><br>1. Cymeradwyo'r gostyngiad yn y ddarpariaeth a chymorth yn ôl yr angen/gwasanaeth cymorth yn y gymuned, sydd ar hyn o bryd yn rhan o gontract y Gwasanaethau Cam-drin Domestig Integredig mewnol.<br>2. Cymeradwyo datblygu pwynt cyswllt cyntaf/cymorth yn ôl yr angen newydd yn y gymuned (gan gynnwys cymorth galw heibio a chymorth yn ôl yr angen/gwasanaeth cymorth yn y gymuned, cymorthfeydd allgymorth) ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, i'w darparu'n fewnol gan staff a gyflogir gan CBSP. |

| Teitl yr Adroddiad | **Newyddiad (*Novation*) Contractau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Groesffyrdd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Gofalu am Ofalwyr** |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br><br>• Awdurdodi hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor i ganiatáu addasu'r contract presennol gyda |

| | |
|---|---|
| | Chroesffyrdd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Gofalu am Ofalwyr mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Gofal Cartref drwy gydsynio i roi newyddiad i'r contract i Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru yn unol â CPR 3.2.9.4;<br>• Awdurdodi hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor i ganiatáu addasu'r contract presennol gyda Chroesffyrdd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Gofalu am Ofalwyr mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Gofal Cartref drwy gydsynio i roi newyddiad i'r contract i Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru yn unol â CPR 3.2.9.4;<br>• Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i roi caniatâd ysgrifenedig i'r newyddiad ac i ymrwymo i weithred o newyddiad ar gyfer y contractau perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 a Phrif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol ac i drefnu i'r weithred o newyddiad gael ei weithredu ar ran y Cyngor , ar yr amod bod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio. |

| Teitl yr Adroddiad | **Gwasanaeth Cymorth Sefydlogrwydd Amlasiantaethol (MAPSS) – Gwasanaethau Plant** |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br>➢ Cymeradwyo fod CBSP yn ymrwymo i gytundeb cydweithredu rhanbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer darparu MAPSS;<br>➢ Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Dros Dro ac Adran 151 Swyddog a Phrif Swyddog - Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio i gytuno ar delerau'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol ac unrhyw gytundebau ategol ac i drefnu i'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol gael ei weithredu ar ran y Cyngor, ar yr amod bod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyfreithiol , Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio.<br>➢ Cymeradwyo fod CBSP yn dod yn rhan o'r ymarfer caffael rhanbarthol i gomisiynu darparwr gwasanaeth i ddarparu MAPSS, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithredu fel awdurdod arweiniol yn y |

| | |
|---|---|
| | broses gaffael, ac i nodi y ceisir cymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract gwasanaeth MAPSS rhanbarthol drwy bwerau dirprwyedig (o dan Gynllun Dirprwyo CBSP) unwaith y bydd y broses gaffael a gwerthuso wedi'i chynnal; Ac<br>➢ Yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant i gynrychioli a gwneud penderfyniadau ar ran CBSP fel rhan o'r Bwrdd Prosiect Rhanbarthol. |
| Teitl yr Adroddiad | **Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000** |
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi diwygiedig fel y'i hatodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynrychiolaeth ar Gydbwyllgorau a Chyrff Allanol** |
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi penodi'r nifer ofynnol o Aelodau i'r cydbwyllgorau a chyrff allanol eraill fel y rhestrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ar yr amod bod yr Arweinydd yn sefyll i lawr o Lys Llywodraethwyr Prifysgol Abertawe ac i'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gymryd eu lle. |
| Teitl yr Adroddiad | **Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir – Amrywio'r Cytundeb Cydweithio** |
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br><br>(i) Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cytundeb Cydweithio rhwng y tri Chyngor ar gyfer darparu Gwasanaethau Rheoleiddio;<br>(ii) Yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog – Pennaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Interim a'r Swyddog Adran 151 i gytuno ar delerau'r Weithred Amrywio i'r Cytundeb Cydweithio ac i drefnu gweithredu'r Weithred Amrywio ar ran y Cyngor. |
| Teitl yr Adroddiad | **Nodi Adroddiad Gwybodaeth** |
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad hwn. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol** |
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Gwahodd Tendrau ar gyfer Contractau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Cabinet wedi:<br><br>1. Awdurdodi gwahoddiad tendrau fel y nodir yn yr adroddiad.<br>2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro a’r Swyddog Adran 151, i awdurdodi derbyn y tendrau sy’n rhoi’r fantais economaidd fwyaf ac i lunio contractau gyda'r cynigwyr llwyddiannus ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach eraill sy'n atodol i'r contractau hynny yn dilyn y broses gaffael. |